Y Comisiwn Etholiadol

# Ffurflen UA2

## Adroddiad ar roddion a wnaed i gymdeithas anghorfforedig cyn i gyfraniad gwleidyddol gael ei wneud

Mae'r trothwy cofrestru cymdeithasau anghorfforedig isod yn berthnasol hyd at 31 Rhagfyr 2023. O 1 Ionawr 2024 ymlaen, bydd trothwy newydd yn berthnasol:

- Bydd y trothwy cofrestru o £25,000 mewn cyfraniadau gwleidyddol o fewn blwyddyn galendr yn cynyddu i £37,270

Mae'r trothwyon adrodd isod yn berthnasol ar gyfer rhoddion a dderbyniwyd hyd at 31 Rhagfyr 2023. Ar gyfer rhoddion a dderbyniwyd o 1 Ionawr 2024 ymlaen, bydd trothwyon newydd yn berthnasol:

- Bydd trothwyon adrodd o £7,500 yn cynyddu i £11,180
- Bydd trothwyon adrodd o £1,500 yn cynyddu i £2,230

Os bydd gofyn i chi gofrestru ar neu ar ôl 1 Ionawr 2024, bydd y trothwyon adrodd newydd yn berthnasol i bob rhodd a dderbynnir, gan gynnwys y rhai a dderbyniwyd cyn 1 Ionawr 2024.

Y Comisiwn Etholiadol

# Ffurflen UA2

# Adroddiad ar roddion a wnaed i gymdeithas anghorfforedig cyn i gyfraniad gwleidyddol gael ei wneud

Dylai'r ffurflen hon gael ei llenwi gan yr unigolyn awdurdodedig ar ran cymdeithas anghorfforedig. Bydd angen i chi lenwi'r ffurflen hon pan fydd eich cymdeithas wedi rhoi gwybod i ni ei bod wedi gwneud cyfraniadau gwleidyddol gwerth cyfanswm o fwy na £25,000 yn ystod blwyddyn galendr. Byddwch wedi gwneud hyn drwy lenwi ffurflen UA1, sydd ar ein gwefan yn www.comisiwnetholiadol.org.uk

Bydd y ffurflen hon yn rhoi gwybod i ni am y rhoddion a wnaed i'ch cymdeithas ar ddyddiad y cyfraniad a chyn dyddiad y cyfraniad, sef y diwrnod yr aeth eich cyfraniadau gwleidyddol yn ystod y flwyddyn y tu hwnt i £25,000. Byddwn yn cyhoeddi'r wybodaeth a ddarperir gennych ar y gofrestr gyhoeddus o roddion a gofnodir i gymdeithasau anghorfforedig.

Mae angen i chi roi gwybod i ni am bob rhodd o fwy na £7,500 a wnaed i chi yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r cyfnod adrodd yn cychwyn ar ddechrau'r flwyddyn cyn y flwyddyn galendr sy'n cynnwys dyddiad y cyfraniad, ac mae'n gorffen ar ddyddiad y cyfraniad.

Noder: nid oes angen i chi gynnwys unrhyw roddion a gafwyd cyn 21 Gorffennaf 2009

Pwysig: dylech lenwi'r ffurflen hon a'i dychwelyd atom o fewn 60 diwrnod i ddyddiad y cyfraniad.

## Llenwi ac anfon y ffurflen atom:

Gallwch deipio'n uniongyrchol ar y ffurflen a'i hargraffu er mwyn ei llofnodi a'i hanfon atom. Fel arall, gallwch argraffu'r ffurflen, ei llenwi â llaw a'i hanfon atom.

Gweler y Blwch Diffiniadau ar ddiwedd y ddogfen am esboniad o'r termau cyfreithiol a ddefnyddir yn y nodyn esboniadol hwn.

Peidiwch ag anfon y ffurflen hon atom yn electronig. Mae angen llofnodi'r ffurflen hon gan ei bod yn cynnwys datganiad felly gallwch naill ei phostio neu ei ffacsio atom.

Noder: Os ydych yn llenwi'r ffurflen hon, bydd angen i chi hefyd lenwi ffurflen UA3, sef 'Adroddiad chwarterol ar roddion a gafwyd ar ôl i gyfraniad gael ei wneud', ar ddiwedd y chwarter (31 Mawrth, 30 Mehefin, 30 Medi, 31 Rhagfyr).

## Nodiadau esboniadol

Mae pob nodyn yn rhoi manylion am y wybodaeth sydd ei hangen i lenwi'r adran â'r rhif cyfatebol ar y ffurflen.

### 1. Manylion y gymdeithas anghorfforedig

Rhowch enw llawn a chyfeiriad prif swyddfa eich sefydliad a rhowch rif cyfeirnod os ydym eisoes wedi rhoi un i chi.

### 2. Datganiad a llofnodion

Rhaid i'r datganiad gael ei lofnodi a'i ddyddio gan yr unigolyn awdurdodedig ar ran y gymdeithas anghorfforedig.

> **!** Byddwch yn gwneud datganiad pan fyddwch yn llofnodi'r ffurflen hon. Mae'n drosedd i wneud datganiad anwir yn fwriadol neu'n ddi-hid. I gael rhagor o wybodaeth, gweler ein Nodyn briffio: cymdeithasau anghorfforedig, sydd ar ein gwefan yn www.comisiwnetholiadol.org.uk.

### 3. Math o ffurflen

Os **nad** yw eich sefydliad wedi cael rhoddion o fwy na £7,500 yn ystod y cyfnod adrodd yna dylech roi tic yn y blwch **'dim rhoddion'**. Caiff y ffurflen ei thrin fel datganiad dim trafodion ac nid oes angen i chi lenwi unrhyw beth arall arni.

Os yw eich sefydliad wedi cael rhoddion o fwy na £7,500 yn ystod y cyfnod adrodd dylech roi tic yn y blwch 'rhoddion' a chwblhau'r datganiad rhoddion yn adran 4.

> **!** Os na fyddwch yn ticio unrhyw un o'r blychau yn adran 3 byddwn yn dychwelyd y ffurflen i chi fel un anghyflawn.

### 4. Datganiad rhoddion

Mae'r llywodraeth yn bwriadu llunio is-ddeddfwriaeth i gadarnhau beth yn union yw rhodd. Yn y cyfamser darllenwch y blwch diffiniadau am ganllawiau ac os oes unrhyw beth nad ydych yn siŵr y dylech ei gofnodi fel rhodd ai peidio, dylech ei gynnwys ar y ffurflen.

a. Dywedwch wrthym faint o bobl neu sefydliadau a wnaeth y rhoddion rydych yn eu cofnodi – dylai'r ffigur hwn gyfateb i nifer y cofnodion a wnewch yn adran 4. Defnyddiwch y ddolen ar y ffurflen i gael rhagor o gopïau o'r adran hon os oes angen i chi roi gwybod i ni am fwy na thri rhoddwr.

b. Rhowch unrhyw fanylion sydd gennych am yr unigolyn neu'r sefydliad a wnaeth bob rhodd o fwy na £7,500 i chi yn ystod y cyfnod adrodd.

c. Nodwch gyfanswm neu werth y rhodd. Os nad arian oedd y rhodd i gyd neu ran ohoni, dylid nodi ei gwerth ar y farchnad. Mae disgowntiau ar asedau a brynir a buddiannau fel ardrethi is ar gyfer rhentu eiddo, gwasanaethau neu gyfleusterau yn debygol o gael eu cyfrif yn rhoddion hefyd. Yn yr achosion hyn, swm y rhodd yw gwerth y buddiant a gafwyd.

ch. Nodwch ar ba ddyddiad y cafwyd y rhodd.

**Noder:** ystyrir bod y gymdeithas wedi cael rhodd o fwy na £7,500 gan unigolyn neu sefydliad ar y diwrnod y cafodd y rhodd a gododd y cyfanswm y tu hwnt i £7,500.

d. Ticiwch y blwch i ddweud wrthym p’un a yw’r rhodd dan sylw yn rhodd unigol neu’n rhodd luosog. Mae rhodd luosog yn golygu eich bod wedi cael o leiaf ddwy rodd o fwy na £500 gan yr un unigolyn, neu sefydliad, yn yr un flwyddyn galendr sy’n creu cyfanswm o fwy na £7,500.

Noder: Os ydych yn rhoi gwybod am rodd luosog bydd angen i chi lenwi adran 5 ar gyfer y rhodd hon hefyd.

dd. Os mai rhodd unigol oedd y rhodd, nodwch pa fath o rodd ydoedd e.e. ariannol, anariannol, disgownt ar bris swyddfa neu wasanaethau, neu gymynrodd.

## 5. Manylion rhodd luosog

Defnyddiwch y dudalen hon i ddweud mwy wrthym am roddion sydd wedi’u rhannu’n nifer o roddion llai. Defnyddiwch y ddolen ar y ffurflen os oes angen rhagor o gopïau o’r dudalen hon arnoch.

Am bob rhodd o fwy na £500 sy’n cyfrannu at rodd luosog, nodwch y canlynol:

a y math o rodd ydoedd e.e. ariannol, anariannol, cymynrodd
b. swm neu werth y rhodd
c. y dyddiad y cafwyd y rhodd benodol.

Dychwelwch y ffurflen drwy’r post neu drwy ffacs i:

Party and Election Finance
The Electoral Commission
3 Bunhill Row
London EC1Y 8YZ

Ffôn: 020 7271 0616
Ffacs: 020 7271 0505
E-bost: pef@electoralcommission.org.uk
Gwefan: www.comisiwnetholiadol.org.uk

At ddefnydd y Comisiwn Etholiadol yn unig:

Y Comisiwn Etholiadol

Ffurflen UA2

# Adroddiad ar roddion a wnaed i gymdeithas anghorfforedig sydd wedi gwneud cyfraniadau gwleidyddol

## Adran 1 Manylion y gymdeithas anghorfforedig

| | |
|---|---|
| Enw | |
| Cyfeiriad | |
| Cyfeiriad e-bost | |
| Rhif cyfeirnod | |

## Adran 2 Datganiad a llofnodion

Datganaf hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, fod pob rhodd berthnasol wedi'i chofnodi yn yr adroddiad hwn ac na dderbyniwyd unrhyw roddion perthnasol eraill mewn perthynas â'r hysbysiad a wnaed o dan Ran IX o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000

| | |
|---|---|
| Llofnodwyd | |
| Enw wedi'i brintio | |
| Swydd | |
| Dyddiad | |

## Adran 3 Math o ffurflen

Rydym wedi cael (ticiwch):

Dim rhoddion – nid ydym wedi cael unrhyw roddion y mae'n rhaid i ni roi gwybod amdanynt o dan Ran IX o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Mae hwn yn ddatganiad dim trafodion. ☐

➔ Os ydych wedi ticio 'dim rhoddion', nid oes angen i chi lenwi Adrannau 4 a 5.

Rhoddion – rydym wedi cael rhoddion y mae'n rhaid i ni roi gwybod amdanynt o dan Ran IX o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. ☐

➔ Os ydych wedi ticio 'rhoddion', cwblhewch y datganiad rhoddion isod.

## Adran 4 Datganiad rhoddion

Cyfanswm y rhoddwyr – pobl neu sefydliadau sydd wedi gwneud rhoddion i chi ☐

➔ Rhowch fanylion am bob rhoddwr a'i roddion isod

### Rhoddwr 1

Enw'r rhoddwr ☐

Cyfeiriad y rhoddwr ☐

Cyfanswm arian neu werth ☐

Dyddiad cael y rhodd ☐

Gwnaed y rhodd hon fel

Rhodd unigol ☐

Rhoddion lluosog ☐

Math o rodd ☐

➔ Os gwnaed y rhodd ar ffurf rhoddion lluosog, rhaid i chi roi manylion y rhoddion unigol hyn drwy lenwi 'Adran 5 Manylion rhodd luosog' ar ddiwedd y ffurflen hon

## Rhoddwr 2

Enw'r rhoddwr

Cyfeiriad y rhoddwr

Cyfanswm arian neu werth

Dyddiad cael y rhodd

Gwnaed y rhodd hon fel

Rhodd unigol ☐

Rhoddion lluosog ☐

Math o rodd

➔ Os gwnaed y rhodd ar ffurf rhoddion lluosog, rhaid i chi roi manylion y rhoddion unigol hyn drwy lenwi 'Adran 5 Manylion rhodd luosog' ar ddiwedd y ffurflen hon

## Rhoddwr 3

Enw'r rhoddwr

Cyfeiriad y rhoddwr

Cyfanswm arian neu werth

Dyddiad cael y rhodd

Gwnaed y rhodd hon fel

Rhodd unigol ☐

Rhoddion lluosog ☐

Math o rodd

➔ Os gwnaed y rhodd ar ffurf rhoddion lluosog, rhaid i chi roi manylion y rhoddion unigol hyn drwy lenwi 'Adran 5 Manylion rhodd luosog' ar ddiwedd y ffurflen hon

Os oes angen i chi ddweud wrthym am fwy o unigolion, neu sefydliadau, sydd wedi rhoi rhoddion i'ch cymdeithas gallwch lawr lwytho ragor o dudalennau yma. ➔

At ddefnydd y Comisiwn Etholiadol

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dyddiad derbyn | | Gwiriwyd gan | |
| Dyddiad cofnodi yn y gronfa ddata | | Rhif cyfeirnod ffeil | |

➔ Llenwch Adran 5 ar gyfer pob rhoddwr sydd wedi gwneud rhoddion lluosog. Gallwch gael mwy o gopïau o dudalennau adran 5 drwy glicio ar y ddolen hon.

## Adran 5 Manylion rhodd luosog

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhif y rhoddwr | | Enw | |
| Rhodd 1 – natur y rhodd | | | |
| Swm arian neu werth | | Dyddiad cael y rhodd | |
| Rhodd 2 – natur y rhodd | | | |
| Swm arian neu werth | | Dyddiad cael y rhodd | |
| Rhodd 3 – natur y rhodd | | | |
| Swm arian neu werth | | Dyddiad cael y rhodd | |
| Rhodd 4 – natur y rhodd | | | |
| Swm arian neu werth | | Dyddiad cael y rhodd | |
| Rhodd 5 – natur y rhodd | | | |
| Swm arian neu werth | | Dyddiad cael y rhodd | |

## Blwch diffiniadau

**Unigolyn awdurdodedig**
Yr unigolyn sydd wedi'i awdurdodi gan y gymdeithas i wneud datganiad ar ran y gymdeithas.

**Rhodd (Gift)**
Anrheg yw unrhyw beth a roddir neu a drosglwyddir i unrhyw swyddog, aelod, ymddiriedolwr neu asiant cymdeithas anghorfforedig, yn rhinwedd swydd y person o fewn y gymdeithas. Mae'n cynnwys:

- unrhyw gyfraniad ar ffurf arian neu eiddo i'r gymdeithas
- cymynrodd
- unrhyw danysgrifiad neu ffi arall a dalwyd am aelodaeth o'r gymdeithas, neu gysylltiad iddi
- unrhyw arian a wariwyd yn talu treuliau yr aed iddynt gan y gymdeithas; neu
- y ddarpariaeth o unrhyw eiddo, gwasanaeth neu gyfleuster at ddefnydd neu fudd y gymdeithas (gan gynnwys gwasanaethau person) - os nad yw'r ddarpariaeth ar delerau masnachol)

Os caiff eich sefydliad fudd o nawdd am ddigwyddiad, cyhoeddiad, astudiaeth neu ymchwil sy'n werth dros £7,500 cysylltwch â ni i ganfod p'un a ddylech ei gofnodi yn rhodd ai peidio.

**Cyfraniad gwleidyddol**
- cyfraniad neu fenthyciad i blaid wleidyddol gofrestredig
- cyfraniad i ymgyrchydd nad yw'n blaid cofrestredig
- cyfraniad i ymgyrchydd refferendwm cofrestredig
- cyfraniad i ymgyrchydd deiseb adalw cofrestredig
- cyfraniad neu fenthyciad i dderbynnydd a reoleiddir, sef:
  - deiliad swydd etholedig
  - aelod o blaid wleidyddol
  - grŵp o aelodau plaid (a elwir hefyd yn gymdeithas aelodau)

**Rhodd (Donation)**
- unrhyw rodd o arian neu eiddo i'r blaid neu'r sefydliad
- unrhyw nawdd a roddir mewn perthynas â'r blaid neu'r sefydliad
- unrhyw danysgrifiad neu ffi arall a delir am ymgysylltu neu ymaelodi â'r blaid neu'r sefydliad
- unrhyw arian a werir i dalu treuliau yr eir iddynt yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y blaid neu'r sefydliad; neu
- unrhyw eiddo, gwasanaethau neu gyfleusterau a ddarperir – ac eithrio ar delerau masnachol – at ddefnydd neu fudd y blaid (gan gynnwys gwasanaethau unigolyn)

**Deiliad unrhyw swydd etholedig berthnasol**

- aelod o Dy ˆ'r Cyffredin
- aelod o Senedd yr Alban
- aelod o Senedd Cymru
- aelod o Gynulliad Gogledd Iwerddon
- aelod o unrhyw awdurdod lleol yn unrhyw ran o'r DU, gan gynnwys Cyngor Cyffredin Dinas Llundain ond heb gynnwys cyngor plwyf na chyngor cymuned
- aelod o Awdurdod Llundain Fwyaf; neu
- Faer Llundain neu unrhyw faer etholedig arall

## Ble y gallaf gael rhagor o gyngor?

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am hysbysu'r Comisiwn o gyfraniadau gwleidyddol, a rhoi gwybod am roddion a wnaed i gymdeithasau anghorfforedig cysylltwch â ni am ragor o gyngor.

Os yw'n haws, gallwch hefyd ein ffonio drwy ddefnyddio'r rhifau ffôn isod neu drwy anfon e-bost atom. Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â ni.

Ewch i: comisiwnetholiadol.org.uk

E-bostiwch ni yn: gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

Ffoniwch ni ar 0333 103 1929

Rydym yn croesawu adborth ar ein canllawiau – e-bostiwch ni yn pef@electoralcommission.org.uk

## Datganiad preifatrwydd

Dim ond er mwyn cefnogi ein swyddogaethau statudol y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a rowch i ni. Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel ac yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data. Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol, nac unrhyw wybodaeth bersonol y gallwch ei rhoi am bobl eraill, ag unrhyw unigolyn oni bai bod yn rhaid i ni yn ôl y gyfraith.

Sail gyfreithiol dros gasglu'r wybodaeth yn y ffurflen hon yw bod ei hangen arnom er mwyn cyflawni tasgau er budd y cyhoedd ac arfer yr awdurdod swyddogol a roddir i'r Comisiwn Etholiadol fel y nodir yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a'r rheoliadau cysylltiedig a deddfwriaeth etholiadol arall.

Caiff rhywfaint o'r wybodaeth a gesglir yn y ffurflen hon ei dosbarthu'n ddata personol categori arbennig. Rydym yn prosesu'r wybodaeth hon er budd sylweddol y cyhoedd, sy'n seiliedig ar gyfraith y DU. Er mwyn prosesu'r math hwn o wybodaeth, mae'n rhaid bod gan y Rheolydd Data ddogfen bolisi berthnasol sy'n nodi'r modd yr ymdrinnir â'r wybodaeth hon.

Y Comisiwn Etholiadol yw'r Rheolwr Data a gellir cysylltu â'r Swyddog Diogelu Data yn dataprotection@electoralcommission.org.uk.

Gallwch ddarllen ein hysbysiad preifatrwydd yn electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd i gael gwybodaeth am y ffordd rydym yn prosesu data personol.